

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fercher, Gorffennaf 3ydd 2013 yn Festri Glanrafon. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (Cadeirydd), Eifion Davies, Eilir Rowlands, Adrian Williams, Maldwyn Jones, Gwenda Evans, Gethin Morris, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iwan Griffiths, Tina Davies, Gwenda Morris a Alwyn Roberts,

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Eglwys St. Mor a Deiniol, Llanfor.

Roedd y clerch wedi derbyn copi draft o'r cytundeb ond roedd wedi ei anfon yn nol i'r gwerthwyr gywiro rhai adrannau. Cytunwyd y byddai'r cadeirydd a'r clerch yn arwyddo'r cytundeb gorffenedig pryd bynnag a fyddai barod

Goryrru yn Frongoch – Ymgyrch 'Gan Bwyll'.

Derbyniwyd llythyr yn diolch i'r Cyngor am gysylltu ynglŷn â'r goryrru drwy'r pentref. Roedd arolwg cyflymder wedi cael ei gario allan ym mis Mawrth ac unwaith fyddai'r adroddiad yn barod byddant yn cymryd y camau priodol.

Arwydd diogelwch plant ger stad Trem Berwyn, Llandderfel.

Roedd y clerch wedi derbyn llythyr gan Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn egluro ni fyddant yn gallu gosod arwydd gan nad oedd o fewn eu canllawiau presennol. Yn ddiweddarach roedd y Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch wedi cyfarfod ar y safle gyda swyddog Cyngor Gwynedd ac roedd cynlluniau mewn llaw i fesur cyflymder cerbydau a gosod arwyddion araf/slow ar y ffordd. Roedd y clerch hefyd am gysylltu â'r perchennog tir i ofyn iddo glirio'r gwrych a oedd yn cuddio'r arwyddion 30mya.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn

- i) Copi o gofnodion y cyfarfod, 21/5/13.
- ii) Derbyniwyd cais gan swyddogion y Bartneriaeth/Pum Plwy Penllyn i ymweld â'r Cyngor i drafod eu cynlluniau diweddaraf. Cytunwyd i'w gwahodd i'r cyfarfod ym mis Medi.
- iii) Derbyniwyd cais gan y Bartneriaeth i gytuno mewn egwyddor i roi cyfraniad ariannol ychwanegol i gynllun yr Henblas. Trafodwyd y cais a chytunwyd i ofyn am ragor o wybodaeth am y math o daliad a ddisgwyliet a thrafod gyda'r swyddogion ym mis Medi cyn gwneud unrhyw benderfyniad.

b) Cyngor Gwynedd

- i) Rhaglen waith yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer mis Gorffennaf.
- ii) Copïau o'i llyfryn gwybodaeth 'Arwisgo Priffyrdd'.

c) Un Llais Cymru

- i) Copi diweddaraf 'Y Llais'.
- ii) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn y Capel Bach, Trawsfynydd ar y 26/06/13 am 7.00y.h.

ch) Amrywiol

- i) Ombwdsmon – Copi o'r Adroddiad Blynyddol 2012/13
- ii) Llywodraeth Cymru - Llythyr yn tynnu ein sylw at y gwahoddiad i gwblhau holiadur ar sut caiff gwasanaethau cyhoeddus eu llywodraethu.

Ceisiadau Cynllunio.

Cytunwyd i gefnogi'r cais canlynol:-

C13/0620/04/LL – Codi estyniad ystafell haul i gefn annedd. 7, Cae'r Dderwen, Llandderfel.

Materion Ariannol.

Ffioedd.

Derbyniwyd rhestr o'r ffioedd archwilio ar gyfer y Ffurflenni Blynyddol 2012/13.

Derbyniwyd rhestr o ffioedd A G Evans am y flwyddyn 2013-14.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Partneriaeth Penllyn (Costau Gweinyddol)

Cyflog a chostau'r cler (Ebrill i ddiwedd Mehefin)

Deiniol Davies (agor bed ym mynwent Llandderfel)

Unrhyw Fater Arall

Mynwent Frongoch.

Roedd y cler wedi derbyn cais i'r Cyngor edrych ar giât y fynwent gan fod ymwelwyr yn cael trafferth i'w agor a chau. Cytunodd Alwyn Jones cael golwg arni.

Torri glaswellt ar ochr ffyrdd yr ardal.

Gofynnwyd i'r cler gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld pryd yr oeddynt am dorri'r glaswellt ar y cyffyrdd ac ochrau'r ffyrdd gan eu bod yn gordyfu mewn mannau ac yn effeithio gweledigaeth y gyrwyr.